TGAU

# CBAC TGAU
# Astudiaethau Cymdeithasol

Cymeradwywyd gan Cymwysterau Cymru

## Manyleb

Addysgu o 2026
Dyfarnu o 2028

Fersiwn 2 Hydref 2025



Nid yw'r cymhwyster hwn a reoleiddir gan Cymwysterau Cymru ar gael i ganolfannau Lloegr.

Yn arbennig i Gymru.
Yn barod i'r byd.

Hoffai CBAC ddiolch i fyfyrwyr ac athrawon Ysgol Uwchradd Fitzalan, Caerdydd ac Ysgol Uwchradd Llanwern, Casnewydd am gymryd rhan yn y gwaith o greu'r cloriau hyn.

Mae'r fanyleb hon yn bodloni gofynion y dogfennau rheoleiddio canlynol a gyhoeddwyd gan Cymwysterau Cymru:

- Meini Prawf Cymeradwyo Cymwysterau TGAU Gwneud i Gymru sy'n nodi'r gofynion ar gyfer unrhyw gymhwyster TGAU newydd a gymeradwywyd i'w addysgu gyntaf o fis Medi 2025 a thu hwnt.
- Amodau Cydnabod Safonol sy'n cynnwys y rheolau y mae'n rhaid i bob corff dyfarnu a'u cymwysterau eu bodloni wrth gynnig cymwysterau i ddysgwyr yng Nghymru.
- Meini Prawf Cymeradwyo ar gyfer TGAU Astudiaethau Cymdeithasol sy'n nodi'r gofynion pwnc-benodol ar gyfer TGAU Astudiaethau Cymdeithasol o fis Medi 2025 a thu hwnt.

**Hawlfraint**
© WJEC CBAC Limited 2025.

# CRYNODEB O'R NEWIDIADAU

| Fersiwn | Disgrifiad | Rhif y dudalen |
|---|---|---|
| 2 | 3.2.5 wedi'i newid<br>• Alex Griffiths yn disodli Bleddyn Lake<br>• ychwanegu 'y' at Zoe (Allen) | 27 |

© WJEC CBAC Ltd 2025.

## CYNNWYS

CRYNODEB O'R ASESU ... 5
1 CYFLWYNIAD ... 6
1.1 Nodau ... 6
1.2 Cwricwlwm i Gymru ... 7
1.3 Dysgu blaenorol a dilyniant ... 9
1.4 Oriau dysgu dan arweiniad ... 9
1.5 Defnyddio iaith ... 9
1.6 Cydraddoldeb a mynediad teg ... 9
2 CYNNWYS Y PWNC ... 10
Sut i ddarllen yr ymhelaethiad ... 10
Uned 1 ... 10
Uned 2 ... 18
Uned 3 ... 22
Uned 4 ... 28
Cyfleoedd i integreiddio profiadau dysgu ... 31
3 ASESU ... 32
3.1 Amcanion Asesu a Phwysoli ... 32
3.2 Trefniadau ar gyfer asesiad di-arholiad ... 33
4 CAMYMDDWYN ... 34
5 GWYBODAETH DECHNEGOL ... 35
5.1 Cofrestru a dyfarnu ... 35
5.2 Graddio, dyfarnu ac adrodd yn ôl ... 36
Atodiad A: Cyfleoedd i ymgorffori elfennau o'r Cwricwlwm i Gymru ... 37
Atodiad B: Ymdrin â chysyniadau ... 40
Atodiad C: Cwmpas y cynnwys ... 43

© WJEC CBAC Ltd 2025.

# TGAU ASTUDIAETHAU CYMDEITHASOL

## CRYNODEB O'R ASESU

| |
|---|
| **Uned 1: Cymdeithas a Materion Cymdeithasol**<br>Arholiad ysgrifenedig: 1 awr 15 munud<br>**30% o'r cymhwyster**<br>**60 marc** |
| Cwestiynau sy'n gofyn am ymatebion gwrthrychol, atebion byr ac estynedig, a rhai'n seiliedig ar sefyllfaoedd cymhwysol. |
| **Uned 2: Ymchwilio i Gymdeithas a Materion Cymdeithasol**<br>Asesiad di-arholiad: 6 awr a 30 munud<br>**20% o'r cymhwyster**<br>**60 marc** |
| Wedi'i osod a'i farcio gan CBAC.<br>Bydd yr asesiad yn cynnwys tasgau ffynonellau data wedi'u seilio ar fater cymdeithasol penodol y bydd CBAC yn ei osod bob blwyddyn. |
| **Uned 3: Newid Cymdeithasol mewn Cymdeithas Gyfoes**<br>Arholiad ysgrifenedig: 1 awr 15 munud<br>**30% o'r cymhwyster**<br>**60 marc** |
| Cwestiynau sy'n gofyn am ymatebion gwrthrychol, atebion byr ac estynedig, a rhai'n seiliedig ar sefyllfaoedd cymhwysol. |
| **Uned 4: Cynllunio i Roi Newid Cymdeithasol ar Waith**<br>Asesiad di-arholiad: 6 awr a 30 munud<br>**20% o'r cymhwyster**<br>**60 marc** |
| Wedi'i osod gan CBAC, ei farcio gan y Ganolfan a'i gymedroli gan CBAC.<br>Bydd y briff a'r tasgau'n sefydlog am oes y fanyleb. |

Cymhwyster unedol yw hwn.

Nid yw'n cynnwys haenau.

Ar wahân i Uned 1, sy'n uned ragarweiniol, ac Uned 4, sy'n uned synoptig, nid yw trefn gyflwyno'r ddwy uned arall yn awgrymu bod unrhyw hierarchaeth. Felly, nid oes yma awgrym o drefn addysgu benodol.

Bydd unedau 1-3 ar gael o 2027, gydag Uned 4 ar gael yn 2028.

Bydd y cymhwyster yn cael ei ddyfarnu am y tro cyntaf yn 2028.

Rhif Cymeradwyo'r Cymhwyster: C00/5167/4

© WJEC CBAC Ltd 2025.

# TGAU ASTUDIAETHAU CYMDEITHASOL

## 1 CYFLWYNIAD

### 1.1 Nodau

Mae TGAU Astudiaethau Cymdeithasol yn cefnogi dysgwyr i:

- ddatblygu dealltwriaeth o sut i ddod yn ddinasyddion egwyddorol, gwybodus a chyfrifol yng Nghymru a'r byd
- datblygu gwell dealltwriaeth o'r byd ac o bobl eraill a'u gwerthoedd
- ymgysylltu â materion cymdeithasol cyfoes, ac archwilio hunaniaeth, hawliau a democratiaeth
- archwilio materion cymdeithasol ac ystyried sut i gymryd rhan weithredol ac ymgysylltu â gweithredu cymdeithasol
- gwerthfawrogi natur gymhleth, blwraliaethol ac amrywiol cymdeithas drwy feithrin dealltwriaeth o hunaniaeth, hawliau a chyfrifoldebau, cydraddoldeb ac anghydraddoldeb, a sut mae'r materion hyn yn siapio pobl, lleoedd a chymuned
- adfyfyrio ar ddylanwad llywodraethu ar bobl, lleoedd a chymuned
- archwilio themâu trawsbynciol hawliau dynol ac amrywiaeth, gan gynnwys safbwyntiau, hunaniaeth, diwylliant a chyfraniadau pobl Ddu, Asiaidd ac ethnig leiafrifol.

Mae Meini Prawf Cymeradwyo Cymwysterau Cymru yn nodi'r nodau hyn.

Bydd y cymhwyster TGAU Astudiaethau Cymdeithasol yn seiliedig ar y cysyniadau canlynol:

- awdurdod a llywodraethiant
- achos ac effaith
- newid a pharhad
- dinasyddiaeth
- cymuned
- amrywiaeth
- hunaniaeth a pherthyn
- rhyng-gysylltrwydd
- cyfiawnder a chydraddoldeb
- cyfrifoldeb
- hawliau
- gweithredu cymdeithasol.

Felly, mae Astudiaethau Cymdeithasol yn ymwneud â:

- deall yr amrywiol ddimensiynau sy'n gallu cael eu defnyddio, ac yn cael eu defnyddio, i ddeall ac esbonio cymdeithasau dynol megis y personol, y lleol, y cenedlaethol, y rhyngwladol
- deall yr amrywiol faterion cymdeithasol sy'n bodoli yng Nghymru ac yn rhyngwladol
- gwerthfawrogi bod materion cymdeithasol yn gymhleth a bod modd eu hesbonio o safbwyntiau amrywiol
- deall bod cymdeithasau'n newid, yr hyn sy'n achosi'r newidiadau hynny a'r hyn y gallwn ni fel aelodau cymdeithas ei wneud i hybu newid yn ein cymdeithas drwy weithredu cymdeithasol cyfreithiol, di-drais.

© WJEC CBAC Ltd 2025.

## 1.2 Cwricwlwm i Gymru

Fframwaith y Cwricwlwm i Gymru yw sail y cymhwyster TGAU Astudiaethau Cymdeithasol hwn. Cafodd ei lunio er mwyn sicrhau y gall dysgwyr barhau i wneud cynnydd tuag at y pedwar diben gan astudio ar gyfer y cymhwyster hwn ar yr un pryd. Yn ganolog i hyn mae'r egwyddorion cynnydd, yn ogystal â'r datganiadau o'r hyn sy'n bwysig a'r sgiliau a chysyniadau pwnc-benodol hynny a amlinellir yn rhan 'Cynllunio eich Cwricwlwm' Maes Dysgu a Phrofiad y Dyniaethau.

Wrth ddatblygu'r cymhwyster hwn, ystyriwyd lle byddai cyfleoedd i ymgorffori'r themâu trawsgwricwlaidd a chyfleoedd yn ogystal i feithrin sgiliau cyfannol a sgiliau trawsgwricwlaidd. Mae mapio syml i'w weld yn Atodiad A, a bydd y Canllawiau Addysgu yn cynnwys gwybodaeth i gefnogi athrawon.

Ystyriwyd hefyd lle gall y cymhwyster greu cyfleoedd i integreiddio'r profiadau dysgu a nodir yn 'Cyfleoedd i integreiddio profiadau dysgu' ar dudalen 29; bydd gwybodaeth bellach i'w chael yn y Canllawiau Addysgu o ran integreiddio'r profiadau dysgu hyn wrth gyflwyno'r cymhwyster.

Mae'r cymhwyster TGAU Astudiaethau Cymdeithasol yn cefnogi'r Cwricwlwm i Gymru drwy wneud y canlynol:

- cefnogi'r datganiadau o'r hyn sy'n bwysig[1], trwy annog dysgwyr i:
  - ofyn cwestiynau ymholi cynyddol soffistigedig
  - dangos mwy o annibyniaeth wrth ddod o hyd i wybodaeth addas, gan wneud rhagfynegiadau a damcaniaethau gwybodus, a ffurfio barn
  - gallu gweithio'n fwy effeithiol gydag eraill, yn enwedig wrth gymryd rhan mewn gweithredu cymdeithasol, ond heb fod yn gyfyngedig i hynny
  - cynyddu ehangder a dyfnder eu gwybodaeth a chysyniadau sylfaenol
  - meithrin dealltwriaeth ohonyn nhw eu hunain yn y byd
  - dangos eu bod yn gallu gweithio gyda nifer cynyddol o ffynonellau gwybodaeth fwyfwy soffistigedig, a dealltwriaeth gynyddol o ffyrdd o ymdrin â hanesion anghyson neu sy'n gwrthdaro
  - mireinio sgiliau disgyblaethol allweddol yn barhaus a datblygu soffistigeiddrwydd cynyddol wrth eu defnyddio a'u cymhwyso, gan gynnwys y rhai sy'n ymwneud ag ymholi, megis llunio cwestiynau a defnyddio tystiolaeth i lunio ac ategu ateb a'r rhai sy'n ymwneud â chynrychioli a dehongli canlyniadau ymholiad
  - dangos gallu cynyddol i drosglwyddo sgiliau a gwybodaeth bresennol i gyd-destunau newydd, a chynyddol anghyfarwydd
  - dangos mwy o allu i ddylanwadu ar ddigwyddiadau drwy fod yn ddinasyddion gwybodus a chyfrifol.
- cefnogi'r ystyriaethau pwnc-benodol ar gyfer Astudiaethau Cymdeithasol[2] drwy:
  - ddatblygu dealltwriaeth o'r ddisgyblaeth a'i gwerth
  - hybu dealltwriaeth gysyniadol o'r byd trwy ddysgu am bobl a'u gwerthoedd, mewn cyfnodau, lleoedd a sefyllfaoedd gwahanol
  - cynnig cyd-destunau cyfoethog i archwilio materion cymdeithasol, hunaniaeth, hawliau a chyfrifoldebau, a threfniadaeth gymdeithasol
  - hybu cyfranogiad gweithredol ac ymwneud â materion cymdeithasol trwy ymholi cymdeithasol, trafodaethau a gweithredu cymdeithasol
  - datblygu dealltwriaeth o sut mae systemau llywodraeth yng Nghymru yn gweithio gan ystyried eu heffaith ar fywydau pobl, a sut maen nhw'n cymharu â systemau eraill

[1] https://hwb.gov.wales/cwricwlwm-i-gymru/y-dyniaethau/datganiadau-o-r-hyn-sy-n-bwysig/

[2] https://hwb.gov.wales/cwricwlwm-i-gymru/y-dyniaethau/cynllunio-eich-cwricwlwm/#ystyriaethau-penodol-ar-gyfer-y-maes-hwn

© WJEC CBAC Ltd 2025.

- archwilio cysyniadau llywodraethiant, hawliau, cydraddoldeb, anghydraddoldeb, ethnigrwydd, rhywedd a thlodi.

© WJEC CBAC Ltd 2025.

## 1.3 Dysgu blaenorol a dilyniant

Er nad yw dysgu blaenorol yn un o'r gofynion penodol, lluniwyd y cymhwyster yn bennaf i ddysgwyr rhwng 14 ac 16 oed. Mae'n adeiladu felly ar y ddealltwriaeth gysyniadol a ddatblygwyd gan ddysgwyr drwy'r hyn a ddysgwyd ganddynt rhwng 3 ac 14 oed.

Mae'r cymhwyster yn galluogi dysgwyr i ddatblygu sylfaen gref o wybodaeth, sgiliau a dealltwriaeth sy'n cefnogi dilyniant i astudio ôl-16 ac sy'n paratoi dysgwyr ar gyfer bywyd, dysgu a gwaith. Mae'r cymhwyster yn darparu sylfaen addas ar gyfer astudio Llywodraeth a Gwleidyddiaeth, Y Gyfraith, Seicoleg a Chymdeithaseg naill ai ar lefel UG neu ar lefel Safon Uwch. Yn ogystal, mae'r fanyleb yn darparu cwrs astudio sy'n gydlynol, yn foddhaol ac yn werth chweil i'r dysgwyr hynny nad ydynt yn symud ymlaen i astudio ymhellach yn y pwnc hwn.

## 1.4 Oriau dysgu dan arweiniad

Lluniwyd y TGAU Astudiaethau Cymdeithasol i'w gyflwyno dros gyfnod o 120–140 o oriau dysgu dan arweiniad. Cafodd y cymhwyster ei lunio'n bennaf fel rhaglen 2 flynedd i ddysgwyr ym mlynyddoedd 10 ac 11.

## 1.5 Defnyddio iaith

Wrth i'n dealltwriaeth o amrywiaeth, tegwch a chynhwysiant ddatblygu, mae'n rhaid i'n hiaith ddatblygu hefyd. Drwy ddiweddaru terminoleg, rydym yn adlewyrchu hunaniaethau unigol yn well ac yn meithrin parch a chywirdeb. Dylai'r iaith a ddefnyddir fod mor benodol â phosibl. Mae'n hanfodol bod yn ymwybodol o'r hyn sy'n digwydd a bod modd addasu gan fod iaith gynhwysol yn hybu urddas a thegwch. Gan gydnabod y bydd iaith yn parhau i ddatblygu, byddwn yn parhau i fod yn agored i ddiwygiadau pellach i sicrhau y cynrychiolir ac y cefnogir pob unigolyn yn gywir. Bydd CBAC yn rhoi gwybod i ganolfannau am unrhyw ddiwygiadau a bydd y fersiwn diweddaraf o'r fanyleb ar y wefan bob amser.

## 1.6 Cydraddoldeb a mynediad teg

Gall unrhyw ddysgwr ddilyn y fanyleb hon, beth bynnag fo'i rywedd a'i gefndir ethnig, crefyddol neu ddiwylliannol. Lluniwyd y fanyleb i osgoi, lle bo'n bosibl, nodweddion a allai, heb gyfiawnhad, ei gwneud yn fwy anodd i ddysgwyr gael mynediad a llwyddo oherwydd bod ganddynt nodwedd warchodedig benodol.

O dan Ddeddf Cydraddoldeb 2010, y nodweddion gwarchodedig yw oedran, anabledd, ailbennu rhywedd, beichiogrwydd a mamolaeth, hil, crefydd neu gred, rhyw neu gyfeiriadedd rhywiol.

Bydd trefniadau mynediad ac addasiadau rhesymol yn cael eu gwneud ar gyfer dysgwyr cymwys er mwyn i'r asesiadau fod o fewn eu cyrraedd a'u galluogi i ddangos eu gwybodaeth a sgiliau heb newid gofynion yr asesiad.

Mae gwybodaeth am drefniadau mynediad ac addasiadau rhesymol i'w chael yn y ddogfen ganlynol gan y Cyd-gyngor Cymwysterau (CGC): Trefniadau Mynediad, Addasiadau Rhesymol: Cymwysterau Cyffredinol a Galwedigaethol. Mae'r ddogfen hon ar gael ar wefan y Cyd-gyngor Cymwysterau ([www.jcq.org.uk](http://www.jcq.org.uk)).

Byddwn yn dilyn egwyddorion y ddogfen hon ac felly, o ganlyniad i ddarpariaeth addasiadau rhesymol, prin iawn fydd nifer y dysgwyr sydd wedi'u hatal yn llwyr rhag unrhyw ran o'r asesiad.

© WJEC CBAC Ltd 2025.

# 2 CYNNWYS Y PWNC

## Sut i ddarllen yr ymhelaethiad

Mae'r ymhelaethiad sydd i'w weld yn y golofn ar y dde yn defnyddio'r pedwar bonyn canlynol:

- Mae 'Dylai dysgwyr fod yn ymwybodol o' yn golygu nad oes angen i ddysgwyr ddeall pob agwedd ar y cynnwys dan sylw yn fanwl. Dylai athrawon gyfeirio at y dogfennau Canllawiau Addysgu i gael arweiniad pellach ynghylch y dyfnder a'r ehangder sy'n ofynnol wrth addysgu'r cynnwys hwn.
- Mae 'Dylai dysgwyr wybod' yn cael ei ddefnyddio pan mae gofyn i ddysgwyr ddangos gwybodaeth a dealltwriaeth sylfaenol.
- Mae 'Dylai dysgwyr ddeall' yn cael ei ddefnyddio pan mae gofyn i ddysgwyr ddangos mwy o ddyfnder o ran gwybodaeth a dealltwriaeth, cymhwyso gwybodaeth i gyd-destunau cyfarwydd neu anghyfarwydd a gallu dadansoddi a gwerthuso gwybodaeth at bwrpas penodol.
- Mae 'Dylai dysgwyr allu' yn cael ei ddefnyddio pan fo angen i ddysgwyr gymhwyso'u gwybodaeth a'u dealltwriaeth at sefyllfa ymarferol neu ddangos sgiliau a thechnegau ymarferol yn cael eu cymhwyso.

Mae 'gan gynnwys' yn golygu bod rhaid addysgu'r cynnwys dan sylw ac y gallai gael ei asesu.

Mae defnyddio'r geiriau 'er enghraifft' neu 'megis' yn golygu mai arweiniad yn unig yw'r cynnwys dan sylw, a gellid dewis enghreifftiau eraill.

## Uned 1

**Cymdeithas a Materion Cymdeithasol**

Arholiad ysgrifenedig
30% o'r cymhwyster
60 marc

**Trosolwg o'r uned**
Mae'r uned hon yn canolbwyntio ar gyflwyno dysgwyr i'r syniad o gymdeithas a'r hyn mae'n ei olygu, a sut mae hyn yn gallu cael ei archwilio drwy gysyniadau a lefelau amrywiol, er enghraifft y lleol, y cenedlaethol a'r rhyngwladol.

Pwrpas yr uned hon yw archwilio:
- amrywiaeth o ffyrdd mae'n bosibl eu defnyddio i esbonio a deall cymdeithasau
- sut mae normau a gwerthoedd cymdeithasau yn cael eu trosglwyddo a'u cynnal drwy gymdeithasoli
- syniadau hunaniaeth, hawliau, cyfrifoldebau, ac amrywiaeth o fewn cymdeithas
- sefydliadau cymdeithasol a llywodraethu ar wahanol lefelau yng Nghymru, y Deyrnas Unedig a'r byd ehangach sy'n dylanwadu ar y ffordd y mae cymdeithasau yn gweithredu
- materion cymdeithasol, archwilio sut maen nhw'n cael eu hesbonio, eu mesur a'u hachosi, y grwpiau maen nhw'n effeithio arnyn nhw a'u heffaith ar unigolion.

© WJEC CBAC Ltd 2025.

**Meysydd cynnwys**

| **1.1 Deall cymdeithas** | |
|---|---|
| Yn y testun hwn, bydd dysgwyr yn meithrin gwybodaeth, dealltwriaeth a sgiliau yn y meysydd canlynol:<br>1.1.1 Deall cymdeithasau<br>1.1.2 Deall a thrawsnewid data am gymdeithas<br>1.1.3 Deall cynaliadwyedd mewn cymdeithas<br>1.1.4 Deall cymdeithasoli mewn cymdeithas<br>1.1.5 Deall amrywiaeth yng Nghymru | |
| Adran | Ymhelaethiad |
| 1.1.1<br>Deall cymdeithasau | Dylai dysgwyr wybod beth yw ystyr y termau:<br>• cymuned<br>• diwylliant<br>• rhyng-ddiwylliannol<br>• mewnddiwylliannol<br>• normau<br>• cydlyniad cymdeithasol<br>• rheolaeth gymdeithasol<br>• allgáu cymdeithasol<br>• cymdeithas<br>• isddiwylliant<br>• gwerthoedd.<br><br>Dylai dysgwyr ddeall y mathau o amrywiadau cymdeithasol sydd i'w cael mewn cymdeithasau, gan gynnwys:<br>• cyfunolaidd yn erbyn unigolyddol<br>• homogenaidd yn erbyn heterogenaidd/plwralaidd<br>• agored yn erbyn caeedig.<br><br>Dylai dysgwyr ddeall y mathau o amrywiadau economaidd sydd i'w cael mewn cymdeithasau, gan gynnwys:<br>• economïau gorfodol<br>• economïau marchnad<br>• economïau cymysg<br>• economïau traddodiadol.<br><br>Dylai dysgwyr ddeall y mathau o awdurdod a llywodraethu sydd i'w cael mewn cymdeithasau, gan gynnwys:<br>• democratiaethau<br>• breniniaethau<br>• awdurdodaidd / totalitaraidd<br>• llwythol/traddodiadol. |
| 1.1.2<br>Deall a thrawsnewid data am gymdeithas | Dylai dysgwyr ddeall sut i wneud y canlynol:<br>• dod i gasgliadau o ddata meintiol ac ansoddol ar gymdeithas<br>• nodi patrymau a thueddiadau mewn data ar gymdeithas<br>• nodi gwendidau yng nghyflwyniad data ar gymdeithas<br>• dehongli ac echdynnu gwybodaeth ar amrediad o ffynonellau data ar gymdeithas. |

© WJEC CBAC Ltd 2025.

| | |
|---|---|
| | Dylai dysgwyr ddeall sut i gyfrifo:<br>• cymedr<br>• canolrif<br>• modd<br>• canrannau<br>• amrediad.<br><br>Dylai dysgwyr ddeall sut i lunio graffiau priodol i drawsnewid data, gan ddefnyddio graddfeydd a labeli priodol, gan gynnwys:<br>• siartiau bar<br>• graffiau llinell<br>• siartiau cylch (labelu yn unig)<br>• graffiau gwasgariad. |
| 1.1.3<br>Deall cynaliadwyedd mewn cymdeithas | Dylai dysgwyr fod yn ymwybodol o'r:<br>• 17 nod datblygu cynaliadwy yn Transforming our world: the 2030 Agenda for Sustainable Development (Y Cenhedloedd Unedig, 2016)<br>• nodau Cynllun Gweithredu Cymru Wrth-hiliol (Llywodraeth Cymru, 2022) 2024<br>• saith nod Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) (Llywodraeth Cymru, 2015).<br><br>Dylai dysgwyr ddeall nodau'r tri philer cynaliadwyedd mewn cymdeithas<br>• cymdeithasol<br>• economaidd<br>• amgylcheddol. |
| 1.1.4<br>Deall cymdeithasoli mewn cymdeithas | Dylai dysgwyr wybod beth yw ystyr y termau:<br>• cymdeithasoli<br>• cymdeithasoli cynradd<br>• cymdeithasoli eilaidd.<br><br>Dylai dysgwyr ddeall sut mae cyfryngau cymdeithasoli'n trosglwyddo diwylliant a hunaniaeth i unigolion, gan gynnwys:<br>• teulu<br>• addysg<br>• cyfoedion<br>• cyfryngau.<br><br>Dylai dysgwyr ddeall sut y gall cyfryngau cymdeithasoli ddefnyddio technegau cymdeithasoli i drosglwyddo diwylliant a hunaniaeth, gan gynnwys:<br>• sancsiynau negyddol<br>• sancsiynau cadarnhaol<br>• defnyddio modelau rôl. |
| 1.1.5<br>Deall amrywiaeth yng Nghymru | Dylai dysgwyr wybod beth yw nodweddion amrywiaeth yn y Gymru gyfoes, gan gynnwys:<br>• oedran<br>• anabledd<br>• addysg<br>• cyflogaeth |

© WJEC CBAC Ltd 2025.

| | |
|---|---|
| | • ethnigrwydd<br>• hunaniaeth rhywedd<br>• aelwyd<br>• incwm<br>• iaith<br>• hunaniaeth genedlaethol<br>• crefydd<br>• rhyw<br>• cyfeiriadedd rhywiol.<br><br>Dylai dysgwyr ddeall am amrywiaeth yng Nghymru, gan gynnwys:<br>• patrymau o fewn y Gymru gyfoes<br>• tueddiadau yng Nghymru dros y 100 mlynedd diwethaf. |

© WJEC CBAC Ltd 2025.

**1.2 Sefydliadau gwleidyddol, cyfranogiad a hawliau a chyfrifoldebau dinasyddion yng Nghymru a'r Byd**

Yn y testun hwn, bydd dysgwyr yn meithrin gwybodaeth, dealltwriaeth a sgiliau yn y meysydd canlynol:
1.2.1 Sefydliadau gwleidyddol
1.2.2 Cyfleoedd i gyfranogi'n wleidyddol
1.2.3 Hawliau a chyfrifoldebau

| Adran | Ymhelaethiad |
|---|---|
| 1.2.1<br>Sefydliadau gwleidyddol | Dylai dysgwyr ddeall strwythur a swyddogaeth y sefydliadau canlynol:<br>• awdurdodau unedol (lleol)<br>• Senedd Cymru<br>• Senedd y DU<br>• Sefydliad Cytuniad Gogledd Iwerydd (NATO)<br>• Y Cenhedloedd Unedig (UN).<br><br>Dylen nhw ddeall ymhellach:<br>• y cysylltiadau rhwng y sefydliadau hyn<br>• sut mae pob un o'r sefydliadau hyn yn effeithio ar fywydau pobl Cymru. |
| 1.2.2<br>Cyfleoedd i gyfranogi'n wleidyddol | Dylai dysgwyr ddeall cyfleoedd i gyfranogi'n wleidyddol, gan gynnwys:<br>• etholiadau (lleol, Senedd Cymru, Senedd y DU)<br>• refferenda<br>• pleidiau gwleidyddol<br>• carfanau pwyso<br>• undebau. |
| 1.2.3<br>Hawliau a chyfrifoldebau | Dylai dysgwyr fod yn ymwybodol o'r:<br>• hawliau a'r cyfrifoldebau sy'n rhan o fod yn unigolyn sy'n byw yng Nghymru<br>• deddfau a chytundebau sy'n ymwneud â hawliau dynol, gan gynnwys:<br>    • Datganiad Cyffredinol o Hawliau Dynol (Cenhedloedd Unedig, 1948)<br>    • Confensiwn Ewropeaidd ar Hawliau Dynol (Cyngor Ewrop, 1950)<br>    • Confensiwn ar Hawliau'r Plentyn (y Cenhedloedd Unedig 1989)<br>    • Deddf Hawliau Dynol (Senedd y DU, 1998).<br><br>Dylai dysgwyr ddeall hawliau a chyfrifoldebau canlynol dinasyddion Cymru, gan gynnwys:<br>• hawl i fywyd; cyfrifoldeb: peidio â niweidio na pheryglu bywydau pobl eraill<br>• hawl i gael eu diogelu rhag gwahaniaethu; cyfrifoldeb: peidio â gwahaniaethu yn erbyn ei gilydd<br>• hawl i ryddid mynegiant; cyfrifoldeb: peidio â defnyddio iaith gas neu ddifrïol am unigolyn/grŵp mewn cymdeithas<br>• hawl i addysg; cyfrifoldeb: i fynychu'r ysgol<br>• hawl i breifatrwydd; cyfrifoldeb: peidio â chyrchu gwybodaeth breifat na'i gwneud yn gyhoeddus. |

© WJEC CBAC Ltd 2025.

<table>
<tr><th colspan="2">1.3 Materion cymdeithasol yng Nghymru a'r Byd</th></tr>
<tr><td colspan="2">Yn y testun hwn, bydd dysgwyr yn meithrin gwybodaeth, dealltwriaeth a sgiliau yn y meysydd canlynol:<br>1.3.1 Materion Cymdeithasol<br>1.3.2 Digartrefedd<br>1.3.3 Allgáu digidol<br>1.3.4 Anghydraddoldeb amgylcheddol</td></tr>
<tr><td>Adran</td><td>Ymhelaethiad</td></tr>
<tr><td>1.3.1<br>Materion cymdeithasol</td><td>Dylai dysgwyr ddeall nodweddion materion cymdeithasol, gan gynnwys:<br>• gwyro oddi wrth y normau mewn cymdeithas<br>• posibilrwydd gwahanol effeithiau ar wahanol unigolion<br>• cydnabod eu bod yn niweidiol i unigolion, cymdeithas neu'r byd ffisegol<br>• datrys drwy weithredu, rheoleiddio neu adnoddau<br>• posibilrwydd effaith ar anghydraddoldeb</td></tr>
<tr><td>1.3.2<br>Digartrefedd</td><td>Dylai dysgwyr wybod:<br>• beth yw ystyr y term ‘digartrefedd’<br>• cyfradd digartrefedd yng Nghymru.<br><br>Dylai dysgwyr ddeall achosion digartrefedd, gan gynnwys:<br>• diffyg tai fforddiadwy<br>• diweithdra<br>• digwyddiadau bywyd<br>• problemau iechyd meddwl.<br><br>Dylai dysgwyr ddeall effaith digartrefedd ar unigolion, gan gynnwys:<br>• iechyd meddwl<br>• iechyd corfforol<br>• diogelwch<br>• anallu i gael mynediad at gymdeithas.<br><br>Dylai dysgwyr ddeall nodweddion sy'n cael eu gorgynrychioli yn y boblogaeth ddigartref, gan gynnwys:<br>• oedran<br>• anabledd<br>• addysg<br>• ethnigrwydd<br>• cyfeiriadedd rhywiol.<br><br>Dylai dysgwyr ddeall yr anawsterau sy'n cael eu hwynebu wrth ymchwilio i ddigartrefedd.<br><br>Dylai dysgwyr ddeall rôl sefydliadau yn y gymdeithas sy'n anelu at leihau digartrefedd, gan gynnwys:<br>• elusennau<br>• awdurdodau lleol<br>• Senedd Cymru.</td></tr>
</table>

© WJEC CBAC Ltd 2025.

<table>
<tr><td></td><td>Dylai dysgwyr ddeall digartrefedd mewn cymdeithasau eraill, Yr Ariannin a Norwy yn benodol, a sut mae digartrefedd yn y gwledydd hyn yn cymharu â Chymru.</td></tr>
<tr><td>1.3.3<br>Allgáu digidol</td><td>Dylai dysgwyr wybod:<br>• beth yw ystyr y term ‘allgáu digidol’<br>• cyfradd allgáu digidol yng Nghymru.<br><br>Dylai dysgwyr ddeall y canlynol:<br>• achosion allgáu digidol, gan gynnwys:<br>  • mynediad at fand eang (isadeiledd a chost)<br>  • pryderon ynghylch diogelwch a diogeledd ar-lein<br>  • anabledd<br>  • diffyg sgiliau digidol.<br><br>Dylai dysgwyr ddeall effaith allgáu digidol ar unigolion, gan gynnwys:<br>• cyfathrebu<br>• cyflogadwyedd<br>• rheoli gwybodaeth<br>• trafodion (siopa a gwasanaethau).<br><br>Dylai dysgwyr ddeall nodweddion sy'n cael eu gorgynrychioli yn y boblogaeth wedi'i hallgáu'n ddigidol, gan gynnwys:<br>• oedran<br>• anabledd<br>• ethnigrwydd<br>• statws gweithgarwch economaidd<br>• byw mewn ardaloedd gwledig<br>• defnyddwyr nad Saesneg yw eu hiaith gyntaf.<br><br>Dylai dysgwyr ddeall yr anawsterau sy'n cael eu hwynebu wrth ymchwilio i allgáu digidol.<br><br>Dylai dysgwyr ddeall rolau sefydliadau yn y gymdeithas sy'n anelu at leihau allgáu digidol, gan gynnwys:<br>• elusennau<br>• Senedd Cymru<br>• cwmniau telathrebu.<br><br>Dylai dysgwyr ddeall allgáu digidol mewn cymdeithasau eraill, yn benodol De Affrica a De Korea, a sut mae allgáu digidol yn y gwledydd hyn yn cymharu â Chymru.</td></tr>
</table>

© WJEC CBAC Ltd 2025.

| | |
|---|---|
| 1.3.4<br>Anghydraddoldeb amgylcheddol | Dylai dysgwyr wybod y canlynol:<br>• beth yw ystyr y term 'anghydraddoldeb amgylcheddol'<br>• enghreifftiau o anghydraddoldeb amgylcheddol yng Nghymru.<br><br>Dylai dysgwyr ddeall achosion anghydraddoldeb amgylcheddol, gan gynnwys:<br>• lleoliad isadeiledd<br>• allgáu pobl o wneud penderfyniadau amgylcheddol<br>• amddifadedd economaidd-gymdeithasol<br>• dosbarthiad anghyfartal o fanteision cadarnhaol a negyddol isadeiledd.<br><br>Dylai dysgwyr ddeall effaith anghydraddoldeb amgylcheddol ar unigolion, gan gynnwys:<br>• iechyd meddwl<br>• iechyd corfforol<br>• yr amgylchedd ffisegol lleol.<br><br>Dylai dysgwyr ddeall nodweddion sydd wedi'u gorgynrychioli mewn poblogaethau mae anghydraddoldeb amgylcheddol yn effeithio arnyn nhw, gan gynnwys:<br>• oedran<br>• anabledd<br>• statws gweithgarwch economaidd<br>• ethnigrwydd.<br><br>Dylai dysgwyr ddeall yr anawsterau sy'n cael eu hwynebu wrth ymchwilio i anghydraddoldeb amgylcheddol.<br><br>Dylai dysgwyr ddeall rôl sefydliadau mewn cymdeithas sy'n anelu at leihau anghydraddoldeb amgylcheddol, gan gynnwys:<br>• elusennau<br>• Senedd Cymru<br>• cyrff rheoleiddio yn y DU.<br><br>Dylai dysgwyr ddeall anghydraddoldeb amgylcheddol mewn cymdeithasau eraill, yn benodol Gweriniaeth Ddemocrataidd y Congo a'r Almaen, a sut mae anghydraddoldeb amgylcheddol yn y gwledydd hyn yn cymharu â Chymru. |

© WJEC CBAC Ltd 2025.

## Uned 2

**Ymchwilio i Gymdeithas a Materion Cymdeithasol**

Asesiad di-arholiad
Wedi'i osod a'i farcio gan CBAC
20% o'r cymhwyster
60 marc

**Trosolwg o'r uned**

Mae'r uned hon yn canolbwyntio ar gyflwyno dysgwyr i gysyniadau a thechnegau sydd eu hangen i ymchwilio i gymdeithas a materion cymdeithasol yn briodol. Ei fwriad yw rhoi cyfle i ddysgwyr ymarfer cymhwyso'r cysyniadau a'r technegau hyn mewn ymateb i fater cymdeithasol cyfoes.

Pwrpas yr uned hon yw:
- archwilio dulliau ar gyfer ymchwilio i gymdeithas a materion cymdeithasol a gwerthfawrogi'r effaith y gallai'r dulliau hyn ei chael ar ein dealltwriaeth o faterion cymdeithasol
- cyflwyno amrywiaeth o ffynonellau tystiolaeth i ddysgwyr sy'n ymwneud â chymdeithas a materion cymdeithasol, a'u galluogi i asesu hygrededd ffynonellau tystiolaeth a safbwyntiau
- grymuso dysgwyr i allu tynnu casgliadau o ddata ansoddol a meintiol am faterion cymdeithasol.

**Meysydd cynnwys**

| **2.1 Archwilio ffynonellau** | |
|---|---|
| Yn y testun hwn, bydd dysgwyr yn meithrin gwybodaeth, dealltwriaeth a sgiliau yn y meysydd canlynol:<br>2.1.1 Deall ffynonellau<br>2.1.2 Asesu hygrededd ffynonellau | |
| Adran | Ymhelaethiad |
| 2.1.1<br>Deall ffynonellau | Dylai dysgwyr wybod beth yw nodweddion ffynonellau gwahanol, megis:<br>• meintiol<br>• ansoddol<br>• ffeithiol<br>• barn<br>• ffurfiol<br>• anffurfiol<br>• perswadiol.<br><br>Dylai dysgwyr allu crynhoi'r prif bwyntiau a godwyd am fater cymdeithasol o amrywiaeth o ffynonellau. |
| 2.1.2<br>Asesu hygrededd ffynonellau | Dylai dysgwyr allu asesu hygrededd ffynonellau, gan ystyried agweddau megis:<br>• manwl gywirdeb<br>• awdurdod yr awdur<br>• cyfrededd<br>• tuedd bosibl<br>• pwrpas. |

© WJEC CBAC Ltd 2025.

| 2.2 Ymchwilio i faterion cymdeithasol | |
|---|---|
| Yn y testun hwn, bydd dysgwyr yn meithrin gwybodaeth, dealltwriaeth a sgiliau yn y meysydd canlynol:<br>2.2.1 Dulliau o ymchwilio i faterion cymdeithasol<br>2.2.2 Dyfeisiau casglu data<br>2.2.3 Samplu<br>2.2.4 Moeseg a rheoli risg | |
| Adran | Ymhelaethiad |
| 2.2.1<br>Dulliau o ymchwilio i faterion cymdeithasol | Dylai dysgwyr allu dewis ac esbonio eu defnydd o ddulliau ar gyfer cynnal ymchwil i faterion cymdeithasol, gan gynnwys:<br>• cyfweliadau (strwythuredig, lled-strwythuredig, anstrwythuredig)<br>• arsylwi agored (cyfranogol neu anghyfranogol)<br>• holiaduron.<br><br>Dylai dysgwyr ddeall cryfderau a gwendidau'r dulliau uchod o ymchwilio i faterion cymdeithasol. |
| 2.2.2<br>Dyfeisiau casglu data | Dylai dysgwyr allu creu dyfais briodol ar gyfer casglu data, gan gynnwys:<br>• holiaduron<br>  • cwestiynau caeedig (uniongyrchol)<br>  • cwestiynau agored (anuniongyrchol)<br>  • cwestiynau sgorio neu raddfa Likert<br>• cyfweliadau<br>  • cwestiynau uniongyrchol (caeedig)<br>  • cwestiynau anuniongyrchol (agored)<br>  • cwestiynau dilynol<br>  • cwestiynau holgar<br>• arsylwadau agored<br>  • categorïau ymddygiad/rhestr wirio<br>  • amserlenni samplu (pwynt amser, cyfwng amser, digwyddiad).<br><br>Dylai dysgwyr ddeall cryfderau a gwendidau'r dyfeisiau casglu data uchod. |
| 2.2.3<br>Samplu | Dylai dysgwyr ddeall pwysigrwydd cael samplau cynrychioliadol.<br><br>Dylai dysgwyr allu dewis a defnyddio technegau samplu priodol, gan gynnwys:<br>• cyfle<br>• ar hap<br>• pelen eira<br>• gwirfoddolwr<br>• cwota.<br><br>Dylai dysgwyr allu dewis a chyfiawnhau'r canlynol:<br>• maint y sampl<br>• priodoleddau'r sampl<br>• y dechneg samplu. |

© WJEC CBAC Ltd 2025.

| | |
|---|---|
| 2.2.4<br>Moeseg a rheoli risg | Dylai dysgwyr ddeall y canlynol:<br>• materion moesegol sy'n effeithio ar ymchwil, gan gynnwys:<br>  • cyfrinachedd<br>  • niwed i gyfranogwyr<br>  • cydsyniad dilys<br>  • preifatrwydd<br>• strategaethau y mae ymchwilwyr yn eu defnyddio i fynd i'r afael â'r materion moesegol uchod.<br><br>Dylai dysgwyr allu:<br>• defnyddio strategaethau i fynd i'r afael â materion moesegol yn eu hymchwil<br>• adnabod pa risgiau diogelwch y mae angen eu hystyried wrth gynnal ymchwil ac awgrymu strategaethau a fydd yn lleihau'r risgiau hyn. |

© WJEC CBAC Ltd 2025.

| **2.3 Cyfathrebu materion cymdeithasol** | |
|---|---|
| Yn y testun hwn, bydd dysgwyr yn meithrin gwybodaeth, dealltwriaeth a sgiliau yn y meysydd canlynol:<br>2.3.1 Arddangos data am fater cymdeithasol<br>2.3.2 Creu arteffact i gyfathrebu data am fater cymdeithasol | |
| Adran | Ymhelaethiad |
| 2.3.1<br>Arddangos data am fater cymdeithasol | Dylai dysgwyr allu:<br>• cynnal cyfrifiadau ar ddata crai, er enghraifft:<br>  • cymedr<br>  • canolrif<br>  • modd<br>  • canrannau<br>  • amrediad<br>• dewis dulliau priodol o arddangos data yn seiliedig ar natur y data a gasglwyd, er enghraifft:<br>  • data meintiol neu ansoddol<br>  • categorïau neu ddi-dor<br>  • cydberthyniad neu wahaniaeth<br>• creu enghreifftiau o ddulliau priodol o arddangos data, er enghraifft:<br>  • siartiau bar<br>  • histogramau<br>  • ffeithluniau<br>  • graffiau llinell<br>  • siartiau cylch<br>  • graffiau gwasgariad<br>  • cymylau geiriau<br>• tynnu casgliadau o'r data sydd wedi'u harddangos. |
| 2.3.2<br>Creu arteffact i gyfathrebu data am fater cymdeithasol | Dylai dysgwyr allu:<br>• creu arteffact i gyfathrebu gwybodaeth a gafwyd o ffynonellau a chasglu data cynradd, er enghraifft:<br>  • e-bost<br>  • erthygl ar-lein/postiad blog<br>  • poster ymchwil<br>  • araith<br>• sicrhau bod yr arteffact yn:<br>  • dilyn fformat priodol<br>  • cynnwys cyfathrebu effeithiol<br>  • adlewyrchu'r ffynonellau a roddwyd<br>  • adlewyrchu'r casglu data cynradd. |

© WJEC CBAC Ltd 2025.

## Uned 3

**Newid Cymdeithasol mewn Cymdeithas Gyfoes**

Arholiad ysgrifenedig
30% o'r cymhwyster
60 marc

**Trosolwg o'r uned**
Mae'r uned hon yn canolbwyntio ar gyflwyno dysgwyr i'r syniad o newid cymdeithasol. Ei fwriad yw astudio newid cymdeithasol fel proses, ond hefyd i archwilio'r rôl y gall unigolion a mudiadau ei gael yn sgil newid cymdeithasol.

Pwrpas yr uned hon yw archwilio:
- nodweddion newid cymdeithasol ac enghreifftiau o sut mae cymdeithasau'n gallu newid
- ffactorau amrywiol sy'n gallu arwain at newid cymdeithasol
- effaith newid cymdeithasol a sut mae'n gallu effeithio'n negyddol a/neu'n gadarnhaol ar gymdeithasau a'r unigolion sydd ynddyn nhw
- enghreifftiau o unigolion a mudiadau cymdeithasol sydd wedi cyfrannu at newid cymdeithasol.

**Meysydd cynnwys**

| **3.1 Newid cymdeithasol** | |
|---|---|
| Yn y testun hwn, bydd dysgwyr yn meithrin gwybodaeth, dealltwriaeth a sgiliau yn y meysydd canlynol:<br>3.1.1 Archwilio data ar gymdeithasau sy'n newid<br>3.1.2 Gwahanol fathau o gymdeithas<br>3.1.3 Nodweddion newid cymdeithasol<br>3.1.4 Yr hyn sy'n achosi newid cymdeithasol<br>3.1.5 Effeithiau newid cymdeithasol<br>3.1.6Globaleiddio fel enghraifft drosfwaol o newid cymdeithasol o gwmpas y byd | |
| Adran | Ymhelaethiad |
| 3.1.1<br>Archwilio data ar gymdeithasau sy'n newid | Dylai dysgwyr ddeall sut i ddefnyddio amrywiaeth o ddata crai/cyfrif ffynonellau sy'n dangos newidiadau mewn cymdeithasau.<br><br>Dylai dysgwyr ddeall sut i wneud y canlynol:<br>• tynnu casgliadau o ddata meintiol ac ansoddol am y newidiadau mewn cymdeithasau<br>• nodi patrymau a thueddiadau mewn data am y newidiadau mewn cymdeithasau<br>• nodi gwendidau wrth gyflwyno data am y newidiadau mewn cymdeithasau<br>• dehongli ac echdynnu gwybodaeth am newidiadau mewn cymdeithasau.<br><br>Bydd angen i ddysgwyr ddefnyddio'r dysgu o *adran 1.1.2: Deall a thrawsnewid data am gymdeithas* i archwilio data ar newid cymdeithasau yn effeithiol. |
| 3.1.2<br>Gwahanol fathau o gymdeithas | Dylai dysgwyr ddeall nodweddion gwahanol fathau o gymdeithasau, gan gynnwys:<br>• heliwr-gasglwr |

© WJEC CBAC Ltd 2025.

| | |
|---|---|
| | • ffiwdal<br>• diwydiannol<br>• ôl-ddiwydiannol. |
| 3.1.3<br>Nodweddion newid cymdeithasol | Dylai dysgwyr ddeall prif nodweddion newid cymdeithasol, gan gynnwys:<br>• newid graddol<br>• proses gynyddrannol<br>• effaith gymedrol<br>• newid cymdeithasol cynyddgar<br>• newid cymdeithasol dirywgar.<br><br>Dylai dysgwyr ddeall sut mae newid cymdeithasol yn wahanol i drawsnewid cymdeithasol, gan gynnwys:<br>• cyflymder newid a thrawsnewid<br>• proses newid a thrawsnewid<br>• effaith newid a thrawsnewid.<br><br>Dylai dysgwyr ddeall ymddygiadau a phrosesau seicolegol sy'n gallu achosi newid cymdeithasol ar lefel unigol, gan gynnwys:<br>• tynnu sylw at fater<br>• cysondeb<br>• ymrwymiad<br>• hyblygrwydd<br>• hunaniaethu<br>• gwrthdaro gwybyddol<br>• prosesu manylach<br>• tröedigaeth.<br><br>Dylai dysgwyr ddeall y canlynol:<br>• sut mae cryptomnesia cymdeithasol yn cyfrannu at newid cymdeithasol<br>• sut mae'r effaith pelen eira yn cyfrannu at newid cymdeithasol. |
| 3.1.4<br>Yr hyn sy'n achosi newid cymdeithasol | Dylai dysgwyr wybod categorïau newid cymdeithasol, gan gynnwys:<br>• diwylliannol<br>• demograffig<br>• economaidd<br>• amgylcheddol<br>• gwleidyddol/cyfreithiol<br>• technolegol.<br><br>Dylai dysgwyr ddeall sut mae ffactorau diwylliannol yn cyfrannu at newid cymdeithasol, gan gynnwys:<br>• lledaenu cyffwrdd-ymledol<br>• lledaenu hierarchaidd<br>• lledaenu adleoli<br><br>Dylai dysgwyr ddeall sut mae ffactorau demograffig yn cyfrannu at newid cymdeithasol, gan gynnwys:<br>• dosraniad oedran a rhywedd<br>• genedigaeth, disgwyliad oes a chyfraddau marwolaethau |

© WJEC CBAC Ltd 2025.

| | |
|---|---|
| | • maint y boblogaeth (cynyddu a gostwng).<br><br>Dylai dysgwyr ddeall sut mae ffactorau economaidd yn cyfrannu at newid cymdeithasol, gan gynnwys:<br>• cost byw/chwyddiant<br>• cyfraddau cyflogaeth<br>• dosbarthu cyfoeth.<br><br>Dylai dysgwyr ddeall sut mae ffactorau amgylcheddol yn cyfrannu at newid cymdeithasol, gan gynnwys:<br>• newid hinsawdd<br>• darpariaeth adnoddau<br>• trefoli/defnydd tir.<br><br>Dylai dysgwyr ddeall sut mae ffactorau gwleidyddol/cyfreithiol yn cyfrannu at newid cymdeithasol, gan gynnwys:<br>• datganoli<br>• ideolegau gwleidyddol yn newid<br>• penderfyniadau a chynseiliau barnwrol.<br><br>Dylai dysgwyr ddeall sut mae ffactorau technolegol yn cyfrannu at newid cymdeithasol, gan gynnwys:<br>• arloesi wrth gyfathrebu<br>• arloesi mewn gofal iechyd<br>• arloesi yn y gweithle.<br><br>Dylai dysgwyr fod yn ymwybodol o enghreifftiau o Gymru, y DU neu'r byd ehangach sy'n egluro'r ffactorau uchod. |
| 3.1.5<br>Effeithiau newid cymdeithasol | Dylai dysgwyr ddeall yr effaith gadarnhaol a/neu negyddol mae newid cymdeithasol yn gallu ei gael ar yr agweddau canlynol ar gymdeithas:<br>• cydlyniad diwylliannol a chymdeithasol<br>• cynaliadwyedd amgylcheddol<br>• cydraddoldeb<br>• patrymau a strwythurau dynol<br>• safonau byw<br>• sefydlogrwydd gwleidyddol.<br><br>Dylai dysgwyr fod yn ymwybodol o enghreifftiau o Gymru, y DU neu'r byd ehangach sy'n egluro'r effeithiau uchod. |
| 3.1.6<br>Globaleiddio fel enghraifft drosfwaol o newid cymdeithasol o gwmpas y byd | Dylai dysgwyr wybod beth yw ystyr y term:<br>• globaleiddio.<br><br>Dylai dysgwyr ddeall y canlynol:<br>• sut mae globaleiddio yn enghraifft o ryng-gysylltu ar draws y byd<br>• gall globaleiddio achosi newid cymdeithasol cynyddgar a distrywgar<br><br>Dylai dysgwyr ddeall ffactorau diwylliannol sy'n cynorthwyo ac yn atal globaleiddio, gan gynnwys:<br>• nwyddau traul; profiadau byd-eang wedi'u rhannu;<br>• diffynnaeth ddiwylliannol; rhwystrau ieithyddol. |

© WJEC CBAC Ltd 2025.

| | |
|---|---|
| | Dylai dysgwyr ddeall ffactorau economaidd sy'n cynorthwyo ac yn atal globaleiddio, gan gynnwys:<br>• cynwysyddeiddio; corfforaethau trawswladol<br>• tariffau; sancsiynau.<br><br>Dylai dysgwyr ddeall ffactorau amgylcheddol sy'n cynorthwyo ac yn atal globaleiddio, gan gynnwys:<br>• mynediad at adnoddau naturiol; cytundebau amgylcheddol byd-eang<br>• diffynnaeth amgylcheddol; disbyddu adnoddau.<br><br>Dylai dysgwyr ddeall ffactorau gwleidyddol/cyfreithiol sy'n cynorthwyo ac yn atal globaleiddio, gan gynnwys:<br>• twf llywodraethu rhyngwladol; cytundebau masnach<br>• cenedlaetholdeb: mudiadau cymdeithasol sy'n herio globaleiddio.<br><br>Dylai dysgwyr ddeall ffactorau technolegol sy'n cynorthwyo ac yn atal globaleiddio, gan gynnwys:<br>• 'marwolaeth pellter' a achoswyd gan y Rhyngrwyd; apiau cyfieithu ieithoedd<br>• seiberymosodiadau; mynediad at dechnoleg briodol.<br><br>Dylai dysgwyr fod yn ymwybodol o enghreifftiau o Gymru, y DU neu'r byd ehangach sy'n egluro'r ffactorau uchod. |

© WJEC CBAC Ltd 2025.

| **3.2 Mudiadau Cymdeithasol** | |
|---|---|
| Yn y testun hwn, bydd dysgwyr yn meithrin gwybodaeth, dealltwriaeth a sgiliau yn y meysydd canlynol:<br>3.2.1 Priodoleddau mudiadau cymdeithasol<br>3.2.2 Categoreiddiad Aberle o fudiadau cymdeithasol<br>3.2.3 Camau mewn mudiadau cymdeithasol<br>3.2.4 Effaith mudiadau cymdeithasol o ran creu newid cymdeithasol<br>3.2.5 Ysgogwyr newid cymdeithasol | |
| Adran | Ymhelaethiad |
| 3.2.1<br>Priodoleddau mudiadau cymdeithasol | Dylai dysgwyr fod yn ymwybodol o hanes mudiadau cymdeithasol fel modd o newid cymdeithasol.<br><br>Dylai dysgwyr wybod beth yw ystyr y term 'mudiad cymdeithasol'.<br><br>Dylai dysgwyr ddeall priodoleddau mudiad cymdeithasol, gan gynnwys:<br>• o'r gwaelod i fyny<br>• cydgysylltu gweithgareddau<br>• ffydd dorfol mewn newid cymdeithasol<br>• ymrwymiad i ‘nod cyffredin’<br>• strwythur lled-ffurfiol<br>• ceidwadol neu arloesol. |
| 3.2.2<br>Categoreiddiad Aberle o fudiadau cymdeithasol | Dylai dysgwyr ddeall categoreiddiad Aberle o fudiadau cymdeithasol, gan gynnwys categoreiddiad 'pwy' a 'faint' y canlynol:<br>• mudiadau cymdeithasol amgen<br>• mudiadau cymdeithasol achubol<br>• mudiadau cymdeithasol diwygiadol<br>• mudiadau cymdeithasol chwyldroadol. |
| 3.2.3<br>Camau mewn mudiadau cymdeithasol | Dylai dysgwyr ddeall camau mewn mudiadau cymdeithasol, gan gynnwys:<br>• rhagarweiniol<br>• cyfuniad<br>• sefydliadu<br>• dirywiad. |
| 3.2.4<br>Effaith mudiadau cymdeithasol o ran creu newid cymdeithasol | Dylai dysgwyr wybod am y newid cymdeithasol mae mudiadau cymdeithasol yn ceisio ei gael, gan gynnwys:<br>• y mudiad gwrth-apartheid<br>• mudiad yr amgylchedd<br>• y mudiad ffeministaidd (sydd hefyd yn cael ei adnabod fel y Mudiad Rhyddid Merched (*Women's Liberation*))<br>• mudiad LHDTCRhA+[3]<br>• mudiad y Gymraeg.<br><br>Dylai dysgwyr ddeall effaith mudiadau cymdeithasol, gan gynnwys: |

[3] Lesbiaid, Hoyw, Deurywiol, Trawsrywiol, Cwiar/Cwestiynu, Rhyngryw, ac Anrhywiol/heb rywedd/Aramantaidd.Mae'r "+" yn cynrychioli'r nifer o hunaniaethau eraill a allai fod yn rhan o'r gymuned, megis panrywiol, anneuaidd, rhyweddhylifol, a chynghreiriaid.

© WJEC CBAC Ltd 2025.

| | |
|---|---|
| | • y mudiad gwrth-apartheid<br>• mudiad yr amgylchedd<br>• y mudiad ffeministaidd (sydd hefyd yn cael ei adnabod fel y Mudiad Rhyddid Merched (*Women's Liberation*))<br>• mudiad LHDTCRhA+<br>• mudiad y Gymraeg. |
| 3.2.5<br>Ysgogwyr newid cymdeithasol | Dylai dysgwyr wybod am nod, camau gweithredu ac effaith ysgogwyr newid cymdeithasol o Gymru, gan gynnwys:<br>• Hanef Bhamjee (y mudiad gwrth-apartheid)<br>• Alex Griffiths (mudiad yr amgylchedd)<br>• Zoey Allen (mudiad LHDTCRhA+)<br>• Margaret Haig-Thomas (y mudiad ffeministaidd)<br>• Eileen a Trefor Beasley (mudiad y Gymraeg). |

© WJEC CBAC Ltd 2025.

## Uned 4

**Cynllunio i Roi Newid Cymdeithasol ar Waith**

Asesiad di-arholiad
Wedi'i osod gan CBAC, ei farcio gan y ganolfan a'i gymedroli gan CBAC
20% o'r cymhwyster
60 marc

**Trosolwg o'r uned**
Mae'r uned hon yn canolbwyntio ar annog dysgwyr i archwilio mater cymdeithasol sy'n bwysig iddyn nhw ac yna cynllunio gweithred cymdeithasol cyfreithiol, di-drais y maen nhw'n credu a fyddai'n gallu dechrau'r broses o newid cymdeithasol.

Pwrpas yr uned hon yw:

- nodi materion cymdeithasol ac ymgysylltu â nhw
- archwilio safbwyntiau amrywiol yn ymwneud â materion cymdeithasol
- archwilio enghreifftiau a dulliau o weithredu cymdeithasol
- deall sut i gynllunio ar gyfer gweithredu cymdeithasol
- deall dulliau o ddadansoddi effeithiolrwydd gweithredu cymdeithasol.

**Meysydd cynnwys**

<table>
<tr><th colspan="2">4.1 Gweithredu cymdeithasol</th></tr>
<tr><td colspan="2">Yn y testun hwn, bydd dysgwyr yn meithrin gwybodaeth, dealltwriaeth a sgiliau yn y meysydd canlynol:<br>4.1.1 Deall gweithredu cymdeithasol<br>4.1.2 Dulliau o weithredu cymdeithasol<br>4.1.3 Gwerthuso dulliau o weithredu cymdeithasol</td></tr>
<tr><td>Adran</td><td>Ymhelaethiad</td></tr>
<tr><td>4.1.1<br>Deall gweithredu cymdeithasol</td><td>Dylai dysgwyr ddeall y canlynol:<br>• beth yw ystyr y term ‘gweithredu cymdeithasol’, gan gynnwys:<br>  • creu newid cadarnhaol mewn cymunedau<br>  • nid-er-elw<br>  • gweithredu ymarferol gan unigolion neu grwpiau o bobl.<br><br>Dylai dysgwyr allu cynnig mater cymdeithasol sy'n gofyn am weithredu cymdeithasol trwy ystyried:<br>• ffynonellau eilaidd wedi'u cyfeirnodi yn llawn<br>• effaith y mater ar gymuned<br>• y newid a ddymunir y byddai modd ei wireddu drwy weithredu cymdeithasol.</td></tr>
<tr><td>4.1.2<br>Dulliau o weithredu cymdeithasol</td><td>Dylai dysgwyr ddeall dulliau cyfreithlon a di-drais o weithredu cymdeithasol , gan gynnwys:<br>• y celfyddydau a cherddoriaeth (megis cynyrchiadau theatr)<br>• actifiaeth economaidd (megis boicotio nwyddau a gwasanaethau)<br>• codi arian (megis trefnu digwyddiadau elusennol)<br>• gweithgareddau unigol (megis gwirfoddoli)<br>• protestio heddychlon (megis gorymdeithiau)</td></tr>
</table>

© WJEC CBAC Ltd 2025.

| | |
|---|---|
| | • deisebu (megis creu deisebau ar-lein)<br>• gweithredu gwleidyddol (megis cysylltu â chynrychiolydd etholedig)<br>• cyfryngau cymdeithasol (megis cynhyrchu a rhannu cynnwys)<br>• ysgrifennu a chyhoeddi (megis ysgrifennu postiadau blog). |
| 4.1.3<br>Gwerthuso dulliau o weithredu cymdeithasol | Dylai dysgwyr allu:<br>• gwerthuso dulliau o weithredu cymdeithasol ar gyfer materion cymdeithasol penodol gan ddefnyddio gwahanol feini prawf, megis:<br>    • hygyrchedd ar gyfer gwahanol grwpiau mewn cymdeithas<br>    • cost<br>    • rhwyddineb gweithredu a mesur effaith<br>    • effaith debygol ar wahanol grwpiau mewn cymdeithas<br>    • hirhoedledd<br>    • addasrwydd ar gyfer gwahanol faterion cymdeithasol<br>    • yr amser mae'n ei gymryd i'w gweithredu.<br>• dewis a chyfiawnhau dull priodol o weithredu cymdeithasol ar gyfer mater cymdeithasol penodol trwy ystyried y canlynol:<br>    • y cam gweithredu mwyaf dilys ar gyfer y mater<br>    • eu cryfderau a'u sgiliau unigol. |

| **4.2 Cynllunio ar gyfer gweithredu cymdeithasol** | |
|---|---|
| Yn y testun hwn, bydd dysgwyr yn meithrin gwybodaeth, dealltwriaeth a sgiliau yn y meysydd canlynol:<br>4.2.1 Creu cynllun gweithredu cymdeithasol | |
| Adran | Ymhelaethiad |
| 4.2.1<br>Creu cynllun gweithredu cymdeithasol | Dylai dysgwyr allu creu cynllun gweithredu cymdeithasol, trwy ystyried y canlynol:<br>• amcanion a nodau<br>• yr offer a'r adnoddau sydd eu hangen<br>• cyllideb<br>• rhanddeiliaid, cefnogwyr a gwirfoddolwyr allweddol<br>• cynllun o'r camau gweithredu allweddol sydd eu hangen. |

© WJEC CBAC Ltd 2025.

| **4.3 Dadansoddi effeithiolrwydd gweithredu cymdeithasol** | |
|---|---|
| Yn y testun hwn, bydd dysgwyr yn meithrin gwybodaeth, dealltwriaeth a sgiliau yn y meysydd canlynol:<br>4.3.1 Casglu adborth ar weithredu cymdeithasol a gynlluniwyd<br>4.3.2 Tynnu casgliadau am effeithiolrwydd y gweithredu cymdeithasol a gynlluniwyd | |
| Adran | Ymhelaethiad |
| 4.3.1<br>Casglu adborth ar weithredu cymdeithasol a gynlluniwyd | Dylai dysgwyr ddeall gwahanol ddulliau o gasglu adborth, megis:<br>• holiaduron<br>• cyfweliadau<br>• grwpiau ffocws.<br><br>Dylai dysgwyr allu:<br>• dewis dull priodol o gasglu adborth ar weithredu cymdeithasol a gynlluniwyd<br>• casglu data priodol<br>• arddangos data mewn fformatau priodol. |
| 4.3.2<br>Dod i gasgliadau am effeithiolrwydd y gweithredu cymdeithasol a gynlluniwyd | Dylai dysgwyr allu:<br>• dadansoddi data o adborth ar ddulliau o weithredu cymdeithasol a gynlluniwyd<br>• llunio barn resymedig ar effeithiolrwydd y dulliau o weithredu cymdeithasol a gynlluniwyd yn seiliedig ar y data a ddadansoddwyd<br>• cynnig y newidiadau sydd eu hangen i'r cynllun gweithredu cymdeithasol. |

© WJEC CBAC Ltd 2025.

## Cyfleoedd i integreiddio profiadau dysgu

Mae TGAU Astudiaethau Cymdeithasol yn creu cyfleoedd i ddatblygu'r profiadau dysgu canlynol (ni fydd y profiadau yn cael eu hasesu’n uniongyrchol):

- datblygu empathi, goddefgarwch a thosturi drwy astudio cyd-destunau a safbwyntiau gwahanol ac amrywiol
- datblygu hyder wrth gyfleu eu safbwyntiau eu hunain ac adfyfyrio arnynt, a deall eu gallu i newid
- ystyried eu hawliau a sut mae'n bosibl arfer, amddiffyn a chyfyngu ar yr hawliau hyn
- cydweithio.

Bydd gwybodaeth bellach i'w chael yn y Canllawiau Addysgu o ran y cyfleoedd y mae'r cymhwyster yn eu cynnig i athrawon/canolfannau i integreiddio'r profiadau a'r sgiliau dysgu hyn wrth ei gyflwyno.

Gweler Atodiad A am gyfleoedd i ddatblygu themâu trawsbynciol, sgiliau trawsgwricwlaidd a sgiliau cyfannol.

© WJEC CBAC Ltd 2025.

# 3 ASESU

Bydd y Pecyn Asesu yn cynnwys yr holl wybodaeth fanwl sy'n ymwneud ag asesu.

## 3.1 Amcanion Asesu a Phwysoli

Mae amcanion asesu'r fanyleb hon wedi'u nodi isod. Rhaid i ddysgwyr:

**AA1**
Ddangos gwybodaeth a dealltwriaeth o newid, cysyniadau, materion, prosesau, strwythurau a thermau sy'n berthnasol i astudio cymdeithas.

**AA2**
Cymhwyso gwybodaeth a dealltwriaeth o newid, cysyniadau, materion, dulliau, prosesau, strwythurau a thermau sy'n berthnasol i astudio cymdeithas, at gyd-destunau amrywiol.

**AA3**
Dadansoddi, gwerthuso neu lunio barn ar newid, cysyniadau, dadleuon, materion, dulliau, prosesau a strwythurau neu ddeunyddiau ffynhonnell, sy'n berthnasol i astudio cymdeithas.

**AA4**
Dewis, defnyddio a chymhwyso sgiliau a thechnegau yn ymarferol i ymgymryd ag ymholiadau sy'n berthnasol i astudio cymdeithas.

Mae'r tabl isod yn dangos pwysoli pob amcan asesu ar gyfer pob uned ac ar gyfer y cymhwyster cyfan.

| | **AA1** | **AA2** | **AA3** | **AA4** | **Cyfanswm** |
|---|---|---|---|---|---|
| Uned 1 | 15% | 10% | 5% | - | 30% |
| Uned 2 | - | 4% | 4% | 12% | 20% |
| Uned 3 | 10% | 10% | 10% | - | 30% |
| Uned 4 | - | 0% | 6% | 14% | 20% |
| Pwysoli cyffredinol | **25%** | **24%** | **25%** | **26%** | **100%** |

© WJEC CBAC Ltd 2025.

## 3.2 Trefniadau ar gyfer asesiad di-arholiad

**Uned 2: Trosolwg**

Bydd yr aseiniad, sy'n cynnwys ffynonellau data a sawl tasg, yn cael ei rannu â chanolfannau mewn Pecyn Asesu drwy wefan Porth CBAC ym mis Medi'r flwyddyn gyntaf. Ni fwriedir i'r tasgau newid am hyd oes y cymhwyster. Bydd y mater cymdeithasol yn newid yn flynyddol. Mae gan ganolfannau yr hyblygrwydd i benderfynu pryd yn ystod y flwyddyn y mae dysgwyr yn gwneud yr aseiniad. Fodd bynnag, mae'n bwysig bod canolfannau yn defnyddio'r ffynonellau data o'r flwyddyn y maent yn bwriadu cyflwyno'r gwaith i'w farcio gan y gallai fod yn wahanol i'r flwyddyn y mae'r ymgeiswyr yn gwneud yr asesiad.

Mae'r asesiad hwn yn cyfrannu at 20% o radd gyffredinol y cymhwyster a bydd yn cymryd 6 awr a 30 munud i ymgeiswyr gwblhau'r tasgau. Gellir cwblhau'r aseiniad mewn un sesiwn, neu mewn nifer o sesiynau byrrach. Bydd y tasgau'n cael eu marcio allan o gyfanswm o 60 marc.

Bydd yr uned hon yn cael ei hasesu drwy aseiniad wedi'i osod yn allanol a bydd CBAC yn ei osod a'i farcio. Rhaid cyflwyno asesiadau'n ddigidol (gellir eu hysgrifennu â llaw a'u sganio, neu eu cwblhau'n ddigidol).

**Uned 4: Trosolwg**

Ar gyfer yr asesiad hwn, mae'n ofynnol i ddysgwyr ystyried sut y gallent gynllunio ar gyfer gweithredu cymdeithasol ar fater cymdeithasol sy'n effeithio ar gymuned.

Bydd yr aseiniad, a fydd yn cynnwys briff a sawl tasg, yn cael ei rannu â chanolfannau
drwy becyn Asesu ar Borth CBAC. Ni fwriedir i'r tasgau newid am hyd
oes y fanyleb. Os yw ymgeiswyr yn dewis ailsefyll yr uned hon ar ddyddiad diweddarach, rhaid iddyn nhw ddewis mater cymdeithasol a gweithred cymdeithasol arall i'w harchwilio. Mae gan ganolfannau yr hyblygrwydd i benderfynu pryd yn ystod y flwyddyn asesu, y mae dysgwyr yn gwneud yr aseiniad.

Mae'r asesiad hwn yn cyfrannu 20% at radd gyffredinol y cymhwyster a bydd yn cymryd 6 awr a 30 munud i'w gwblhau. Gellir cwblhau'r aseiniad mewn un sesiwn, neu mewn nifer o sesiynau byrrach. Bydd yr aseiniad yn cael ei farcio allan o gyfanswm o 60 marc.

Bydd yr uned hon yn cael ei hasesu drwy aseiniad wedi'i osod yn allanol a fydd yn cael ei farcio gan y ganolfan a'i gymedroli gan CBAC. Rhaid cyflwyno asesiadau'n ddigidol (gellir eu hysgrifennu â llaw a'u sganio, neu eu cwblhau'n ddigidol).

© WJEC CBAC Ltd 2025.

## 4 CAMYMDDWYN

Cyn dechrau'r cwrs, cyfrifoldeb athrawon yw rhoi gwybod i ymgeiswyr am reoliadau CBAC ynglŷn â chamymddwyn. Rhaid i ymgeiswyr beidio ag ymddwyn yn annheg mewn unrhyw ffordd wrth baratoi gwaith ar gyfer TGAU Astudiaethau Cymdeithasol.

Mae ein Canllaw i atal, adrodd am ac ymchwilio i gamymddwyn yn cynnwys gwybodaeth ynghylch camymddwyn.

Rhaid rhoi gwybod i CBAC ar unwaith am unrhyw achos o gamymddwyn posibl neu gamymddwyn gwirioneddol (camymddwyn@cbac.co.uk). Os bydd ymgeiswyr yn camymddwyn, mae'n bosibl y byddant yn cael eu cosbi neu eu diarddel o'r arholiadau.

Ym mhob achos o gamymddwyn, cynghorir canolfannau i ddilyn cyngor llyfryn y CGC Amau Camymddwyn: Polisïau a Gweithdrefnau.

© WJEC CBAC Ltd 2025.

# 5 GWYBODAETH DECHNEGOL

## 5.1 Cofrestru a dyfarnu

Cymhwyster unedol yw hwn. Caiff ymgeiswyr eu cofrestru ar gyfer pob uned ar wahân.

Bydd cyfleoedd asesu ar gael yn ystod cyfnod asesu'r haf bob blwyddyn, tan ddiwedd oes y fanyleb.

Bydd Uned 1, Uned 2 ac Uned 3 ar gael yn 2027 (a phob blwyddyn wedi hynny). Bydd Uned 4 ar gael yn 2028 (a phob blwyddyn wedi hynny) a dyfernir y cymhwyster am y tro cyntaf yn haf 2028.

<u>Ymgeiswyr cyn-16 (h.y. ymgeiswyr sy'n iau na 16 ar 31 Awst yn y flwyddyn academaidd maen nhw'n cael eu cofrestru ynddi)</u>

Pennir y rheol derfynol ar 40% o gymhwyster cyffredinol TGAU Astudiaethau Cymdeithasol.

Os yw'r asesiad sy'n cael ei ailsefyll yn cyfrannu at y gofyniad rheol derfynol o 40%, marc yr asesiad newydd fydd yn cyfrif waeth beth fo'u canlyniadau blaenorol yn yr asesiad hwnnw.

Unwaith yn unig y gall ymgeiswyr ailsefyll uned unigol. Defnyddir y sgôr marciau unffurf gwell o'r ddau gynnig i gyfrifo'r radd derfynol gyffredinol cyhyd ag y bodlonir y rheol derfynol yn gyntaf h.y. rhaid i ymgeiswyr gwblhau'r rhan leiaf o'r asesiad sy'n ofynnol i ennill cymhwyster yn y gyfres y maent yn cyfnewid ynddi.

Os yw ymgeisydd wedi rhoi cynnig ar unrhyw uned ddwywaith a'i fod yn dymuno cofrestru amdani am y trydydd tro, bydd rhaid i'r ymgeisydd ailgofrestru am bob uned a'r cyfnewid priodol. Cyfeirir at hyn fel 'dechrau o'r newydd'. Pan fydd ymgeisydd yn ailsefyll cymhwyster (dechrau o'r newydd), gall roi hyd at ddau gynnig arall ar bob uned. Fodd bynnag, ni ellir defnyddio canlyniadau o unedau arholiad a safwyd cyn dechrau o'r newydd wrth agregu'r radd (graddau) newydd.

Os cofrestrwyd ymgeisydd am uned ond ei fod yn absennol ar gyfer yr uned honno, nid yw'r absenoldeb yn cyfrif fel ymgais. Fodd bynnag, byddai'r ymgeisydd yn gymwys i gael ei ddisgrifio fel ymgeisydd ailsefyll yn y gyfres olaf y gall ei hailsefyll.

Gellir defnyddio marciau asesiadau di-arholiad dros gyfnod oes y fanyleb.

<u>Ymgeiswyr ôl-16 (h.y. ymgeiswyr sy'n 16 neu'n hŷn ar 1 Medi yn y flwyddyn academaidd maen nhw'n cael eu cofrestru ynddi)</u>

Nid oes rheol derfynol sy'n berthnasol i Ymgeiswyr ôl-16 ar gyfer TGAU Astudiaethau Cymdeithasol.

Nid oes cyfyngiad ar y nifer o weithiau y gall ymgeisydd ailsefyll uned unigol; fodd bynnag, defnyddir y sgôr marc unffurf gwell o'r ddwy ymgais ddiweddaraf wrth gyfrifo'r radd gyffredinol derfynol.

Nid yw'r rheol 'dechrau o'r newydd' yn berthnasol i ymgeiswyr ôl-16.

© WJEC CBAC Ltd 2025.

Os cofrestrwyd ymgeisydd am uned ond ei fod yn absennol ar gyfer yr uned honno, nid yw'r absenoldeb yn cyfrif fel ymgais. Fodd bynnag, byddai'r ymgeisydd yn gymwys i gael ei ddisgrifio fel ymgeisydd ailsefyll yn y gyfres olaf y gall ei hailsefyll.

Gellir defnyddio marciau asesiadau di-arholiad dros gyfnod oes y fanyleb.

Mae'r codau cofrestru i'w gweld isod.

| | | Codau cofrestru | |
|---|---|---|---|
| | | **Cyfrwng Saesneg** | **Cyfrwng Cymraeg** |
| **Uned 1** | Cymdeithas a Materion Cymdeithasol | 3170U1 | 3170N1 |
| **Uned 2** | Ymchwilio i Gymdeithas a Materion Cymdeithasol | 3170U2 | 3170N2 |
| **Uned 3** | Newid Cymdeithasol mewn Cymdeithas Gyfoes | 3170U3 | 3170N3 |
| **Uned 4** | Cynllunio i Roi Newid Cymdeithasol ar Waith | 3170U4 | 3170N4 |
| **CBAC TGAU Astudiaethau Cymdeithasol** | | 3170QS | 3170CS |

Mae rhifyn cyfredol ein dogfen Dulliau Cofrestru a Gwybodaeth am y Codau yn rhoi'r dulliau cofrestru diweddaraf.

## 5.2 Graddio, dyfarnu ac adrodd yn ôl

Mae cymwysterau TGAU yn cael eu hadrodd ar raddfa wyth pwynt o A*–G, ac A* yw'r radd uchaf. Bydd y canlyniadau sy'n methu â chyrraedd y safon isaf ar gyfer y dyfarniad yn cael eu dangos fel U (annosbarthedig).

Adroddir canlyniadau unedau unigol ar raddfa marciau unffurf (GMU) ac maen nhw’n cyfateb i'r graddau canlynol:

| | UCHAFSWM | A* | A | B | C | D | E | F | G |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| **Uned 1** | 120 | 108 | 96 | 84 | 72 | 60 | 48 | 36 | 24 |
| **Uned 2** | 80 | 72 | 64 | 56 | 48 | 40 | 32 | 24 | 16 |
| **Uned 3** | 120 | 108 | 96 | 84 | 72 | 60 | 48 | 36 | 24 |
| **Uned 4** | 80 | 72 | 64 | 56 | 48 | 40 | 32 | 24 | 16 |
| **Dyfarniad Pwnc** | 400 | 360 | 320 | 280 | 240 | 200 | 160 | 120 | 80 |

© WJEC CBAC Ltd 2025.

## Atodiad A: Cyfleoedd i ymgorfforí elfennau o'r Cwricwlwm i Gymru

| **Llinynnau Cwricwlwm i Gymru** | **Uned 1** | **Uned 2** | **Uned 3** | **Uned 4** |
|---|---|---|---|---|
| Themâu Trawsbynciol | | | | |
| Cyd-destunau Lleol, Cenedlaethol a Rhyngwladol | ✓ | ✓ | ✓ | ✓ |
| Agwedd cynaliadwyedd Cyd-destunau Lleol, Cenedlaethol a Rhyngwladol | ✓ | ✓ | ✓ | ✓ |
| Addysg Cydberthynas a Rhywioldeb | ✓ | ✓ | ✓ | ✓ |
| Amrywiaeth | ✓ | ✓ | ✓ | ✓ |
| Addysg Hawliau Dynol | ✓ | ✓ | ✓ | ✓ |
| Gyrfaoedd a Phrofiadau Cysylltiedig â Byd Gwaith | ✓ | ✓ | ✓ | ✓ |
| Sgiliau Trawsgwricwlaidd - Llythrennedd | | | | |
| Gwrando | ✓ | ✓ | ✓ | ✓ |
| Darllen | ✓ | ✓ | ✓ | ✓ |
| Siarad | ✓ | ✓ | ✓ | ✓ |
| Ysgrifennu | ✓ | ✓ | ✓ | ✓ |

© WJEC CBAC Ltd 2025.

| **Llinynnau Cwricwlwm i Gymru** | **Uned 1** | **Uned 2** | **Uned 3** | **Uned 4** |
|---|---|---|---|---|
| Sgiliau Trawsgwricwlaidd - Rhifedd | | | | |
| Datblygu Hyfedredd Mathemategol | ✓ | ✓ | ✓ | ✓ |
| Mae deall y system rifau yn ein helpu ni i gynrychioli a chymharu'r perthnasoedd rhwng rhifau a meintiau | ✓ | ✓ | ✓ | ✓ |
| Mae dysgu am geometreg yn ein helpu ni i ddeall siâp, gofod a safle, ac mae dysgu am fesur yn ein helpu i feintioli yn y byd go iawn | ✓ | | ✓ | |
| Mae dysgu bod ystadegau yn cynrychioli data a bod tebygolrwydd yn modelu siawns yn ein helpu ni i wneud casgliadau a phenderfyniadau gwybodus | ✓ | ✓ | ✓ | ✓ |
| Cymhwysedd Digidol | | | | |
| Dinasyddiaeth | ✓ | ✓ | ✓ | ✓ |
| Rhyngweithio a Chydweithio | ✓ | ✓ | ✓ | ✓ |
| Cynhyrchu | | ✓ | | ✓ |
| Data a Meddwl Cyfrifiannol | ✓ | ✓ | ✓ | ✓ |

© WJEC CBAC Ltd 2025.

| Llinynnau Cwricwlwm i Gymru | Uned 1 | Uned 2 | Uned 3 | Uned 4 |
|---|---|---|---|---|
| Sgiliau Cyfannol | | | | |
| Creadigrwydd ac Arloesi | ✓ | ✓ | ✓ | ✓ |
| Meddwl yn Feirniadol a Datrys Problemau | ✓ | ✓ | ✓ | ✓ |
| Cynllunio a Threfnu | | ✓ | | ✓ |
| Effeithiolrwydd Personol | ✓ | ✓ | ✓ | ✓ |

© WJEC CBAC Ltd 2025.

## Atodiad B: Ymdrin â chysyniadau

Mae'r hyn sydd wedi'i ddangos mewn print italig yn nodi ymdriniaeth bosibl â'r cysyniad gan ddibynnu ar ddulliau addysgu.

| Cysyniad | Uned 1 | Uned 2 | Uned 3 | Uned 4 |
|---|---|---|---|---|
| Awdurdod a llywodraethiant | 1.1.1<br>1.1.3<br>*1.1.4*<br>1.2.1<br>1.2.2<br>1.2.3<br>1.3.2<br>1.3.3<br>1.3.4 | 2.1.1<br>*2.3.1*<br>*2.3.2* | *3.1.1*<br>3.1.4<br>3.1.5<br>3.1.7 | 4.1.2<br>*4.2.1* |
| Achos ac effaith | 1.1.1<br>1.1.2<br>1.1.4<br>*1.1.5*<br>1.2.1<br>1.2.2<br>1.2.3<br>1.3.1<br>1.3.2<br>1.3.3<br>1.3.4 | 2.1.1<br>*2.1.2*<br>*2.2.2*<br>*2.2.3*<br>2.3.1<br>2.3.2 | 3.1.3<br>3.1.4<br>3.1.5<br>3.1.6<br>3.1.7<br>3.2.2<br>3.2.3<br>3.2.4<br>3.2.5 | 4.1.1<br>*4.1.2*<br>*4.2.1* |
| Newid a pharhad | 1.1.3<br>1.1.4<br>1.1.5<br>*1.2.1*<br>*1.2.3*<br>1.3.1<br>1.3.2<br>1.3.3<br>1.3.4 | *2.2.1*<br>*2.2.2*<br>*2.2.3*<br>2.3.1<br>2.3.2 | 3.1.1<br>3.1.2<br>3.1.3<br>3.1.4<br>3.1.5<br>3.1.6<br>3.1.7<br>3.2.1<br>3.2.2<br>3.2.3<br>3.2.4<br>3.2.5 | 4.1.1<br>*4.1.2*<br>*4.1.3*<br>4.2.1<br>*4.3.1*<br>*4.3.2* |
| Dinasyddiaeth | *1.1.2*<br>1.1.3<br>1.2.3<br>1.3.2<br>1.3.4 | 2.2.1 | *3.1.1*<br>*3.1.2*<br>3.1.5<br>*3.2.4*<br>*3.2.5* | *4.1.1*<br>*4.1.2*<br>4.1.3<br>4.2.1<br>*4.3.1*<br>*4.3.2* |
| Cymuned | 1.1.1<br>*1.1.2*<br>*1.1.3*<br>1.1.4<br>*1.1.5*<br>*1.2.2*<br>*1.2.3* | 2.1.1<br>*2.2.2*<br>*2.2.3*<br>*2.2.4*<br>2.3.1<br>2.3.2 | 3.1.1<br>3.1.2<br>3.1.3<br>3.1.4<br>3.1.5<br>*3.1.6*<br>3.1.7 | 4.11<br>4.1.2<br>4.1.3<br>*4.2.1*<br>*4.3.1*<br>*4.3.2* |

© WJEC CBAC Ltd 2025.

| Cysyniad | Uned 1 | Uned 2 | Uned 3 | Uned 4 |
|---|---|---|---|---|
| | 1.3.1<br>1.3.2<br>1.3.3<br>1.3.4 | | 3.2.1<br>3.2.2<br>3.2.3<br>3.2.4<br>3.2.5 | |
| Amrywiaeth | *1.1.1*<br>1.1.2<br>*1.1.3*<br>1.1.4<br>1.1.5<br>1.2.1<br>*1.2.2*<br>*1.2.3*<br>1.3.1<br>1.3.2<br>1.3.3<br>1.3.4 | 2.1.1<br>2.2.2<br>*2.2.3*<br>*2.2.4*<br>2.3.1<br>2.3.2 | 3.1.1<br>*3.1.2*<br>*1.3.3*<br>3.1.4<br>3.1.5<br>*3.1.6*<br>3.1.7<br>*3.2.1*<br>3.2.4<br>3.2.5 | *4.1.1*<br>4.1.2<br>4.1.3<br>*4.2.1*<br>*4.3.1*<br>*4.3.2* |
| Hunaniaeth a pherthyn | 1.1.1<br>1.1.2<br>*1.1.3*<br>1.1.4<br>1.1.5<br>*1.2.1*<br>*1.2.2*<br>*1.2.3*<br>1.3.1<br>1.3.2<br>1.3.3<br>1.3.4 | 2.1.1<br>*2.2.2*<br>*2.2.3*<br>*2.2.4*<br>2.3.1<br>2.3.2 | 3.1.1<br>*3.1.2*<br>*3.1.3*<br>3.1.4<br>3.1.5<br>*3.1.6*<br>3.1.7<br>3.2.1<br>*3.2.2*<br>3.2.4<br>3.2.5 | 4.1.1<br>*4.1.2*<br>*4.1.3*<br>*4.2.1*<br>*4.3.1*<br>*4.3.2* |
| Rhyng-gysylltrwydd | 1.1.1<br>*1.1.2*<br>*1.1.3*<br>*1.1.4*<br>1.1.5<br>1.2.1<br>*1.2.2*<br>*1.2.3*<br>1.3.1<br>1.3.2<br>1.3.3<br>1.3.4 | 2.1.1<br>2.2.2<br>2.2.3<br>2.2.4<br>2.3.1<br>2.3.2 | 3.1.1<br>*3.1.2*<br>*3.1.3*<br>3.1.4<br>3.1.5<br>*3.1.6*<br>3.1.7<br>*3.2.1*<br>*3.2.2*<br>*3.2.4*<br>*3.2.5* | *4.1.1*<br>*4.1.2*<br>*4.2.1* |
| Cyfiawnder a chydraddoldeb | 1.1.3<br>1.1.4<br>1.2.1<br>1.2.2<br>1.2.3<br>*1.3.1*<br>1.3.2<br>1.3.3<br>1.3.4 | 2.1.1<br>*2.2.2*<br>*2.2.3*<br>2.2.4 | *3.1.1*<br>*3.1.2*<br>3.1.4<br>3.1.5<br>*3.2.1*<br>*3.2.2*<br>*3.2.3*<br>3.2.4<br>3.2.5 | *4.1.1*<br>*4.1.2*<br>*4.2.1*<br>*4.3.1*<br>*4.3.2* |

© WJEC CBAC Ltd 2025.

| Cysyniad | Uned 1 | Uned 2 | Uned 3 | Uned 4 |
|---|---|---|---|---|
| Cyfrifoldeb | 1.1.3<br>1.1.4<br>1.2.1<br>*1.2.2*<br>*1.2.3*<br>*1.3.1*<br>1.3.2<br>1.3.3<br>1.3.4 | *2.2.2*<br>2.2.3<br>2.2.4<br>*2.3.1*<br>*2.3.2* | *3.1.1*<br>*3.1.2*<br>3.1.4<br>3.1.5<br>3.1.6<br>*3.1.7*<br>*3.2.1*<br>*3.2.2*<br>3.2.4<br>3.2.5 | 4.1.1<br>*4.1.2*<br>*4.2.1*<br>*4.3.1*<br>*4.3.2* |
| Hawliau | *1.1.2*<br>1.1.3<br>*1.2.2*<br>1.2.3<br>*1.3.1*<br>*1.3.2*<br>*1.3.3*<br>*1.3.4* | 2.2.4<br>*2.3.1*<br>*2.3.2* | *3.1.1*<br>*3.1.2*<br>*3.1.5*<br>3.2.4<br>*3.2.5* | *4.1.1*<br>*4.1.2*<br>*4.1.3*<br>*4.2.1*<br>*4.3.1*<br>*4.3.2* |
| Gweithredu cymdeithasol | *1.1.3*<br>*1.3.2*<br>*1.3.3*<br>*1.3.4* | 2.3.2 | *3.1.5*<br>3.2.1<br>3.2.2<br>3.2.3<br>3.2.4<br>3.2.5 | 4.1.1<br>4.1.2<br>4.1.3<br>4.2.1<br>4.3.1<br>4.3.2 |

© WJEC CBAC Ltd 2025.

## Atodiad C: Cwmpas y cynnwys

Mae'r tabl hwn yn dangos lle mae meysydd cynnwys â ffocws Cymreig, y DU neu fyd-eang yn benodol, neu lle gellir addysgu'r cynnwys gan ddefnyddio enghreifftiau o'r rhain.

| Cwmpas | Uned 1 | Uned 2 | Uned 3 | Uned 4 |
|---|---|---|---|---|
| Cymru | 1.1.1<br>1.1.2<br>1.1.3<br>1.1.4<br>1.1.5<br>1.2.1<br>1.2.2<br>1.2.3<br>1.3.1<br>1.3.2<br>1.3.3<br>1.3.4 | 2.1.1<br>2.1.2<br>2.2.2<br>2.2.3<br>2.2.4<br>2.3.1<br>2.3.2 | 3.1.1<br>3.1.2<br>3.1.3<br>3.1.4<br>3.1.5<br>3.1.7<br>3.2.1<br>3.2.4<br>3.2.5 | 4.1.1<br>4.1.2<br>4.1.3<br>4.2.1<br>4.3.1<br>4.3.2 |
| Y Deyrnas Unedig | 1.1.1<br>1.1.2<br>1.1.3<br>1.1.4<br>1.2.1<br>1.2.2<br>1.2.3<br>1.3.1<br>1.3.2<br>1.3.3<br>1.3.4 | 2.1.1<br>2.1.2<br>2.2.2<br>2.2.3<br>2.2.4<br>2.3.1<br>2.3.2 | 3.1.1<br>3.1.2<br>3.1.3<br>3.1.4<br>3.1.5<br>3.1.7<br>3.2.1<br>3.2.4 | 4.1.1<br>4.1.2<br>4.1.3<br>4.2.1<br>4.3.1<br>4.3.2 |
| Byd-eang | 1.1.1<br>1.1.2<br>1.1.3<br>1.1.4<br>1.2.1<br>1.2.2<br>1.2.3<br>1.3.1<br>1.3.2<br>1.3.3<br>1.3.4 | 2.1.1<br>2.1.2<br>2.2.2<br>2.2.3<br>2.2.4<br>2.3.1<br>2.3.2 | 3.1.1<br>3.1.2<br>3.1.3<br>3.1.4<br>3.1.5<br>3.1.7<br>3.2.1<br>3.2.4 | 4.1.1<br>4.1.2<br>4.1.3<br>4.2.1<br>4.3.1<br>4.3.2 |

© WJEC CBAC Ltd 2025.